

Cronfa Teulu Brown

Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol



Mae themâu blaenoriaeth Cronfa Teulu Brown yn ymwneud â chynaliadwyedd a helpu pobl ifanc i gael dyfodol mwy disglair. I fod yn llwyddiannus, rhaid i brosiectau ddangos sut mae eu gweithgareddau'n cyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

- **Mentora:** Meithrin a grymuso unigolion i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth barhaol. Mae dull mentora cynaliadwy yn sicrhau twf a llwyddiant y sawl sy'n cael eu mentora, gan greu effaith cryfach wrth iddynt gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a'u proffesiynau dros amser.
- **Gwirfoddoli:** Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan ganolog wrth hyrwyddo cynaliadwyedd, twf a datblygiad cymuned trwy gymryd rhan weithredol mewn mentrau fel lles, stiwardiaeth amgylcheddol, tegwch cymdeithasol, a gwytnwch economaidd, ac ati.

Er enghraifft, mae prosiectau fel gerddi cymunedol, rhaglenni ynni adnewyddadwy, ac allgymorth addysgol nid yn unig yn cyfrannu at effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ond hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor a datblygiad blaengar y gymuned.

- **Addysg:** Prosiectau sy'n pwysleisio ymwybyddiaeth amgylcheddol, cyfrifoldeb cymdeithasol, a dysgu gydol oes. Mae addysg gynaliadwy nid yn unig yn arfogi myfyrwyr â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dyfodol sy'n datblygu'n gyflym ond mae hefyd yn meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at greu byd mwy cynaliadwy a chyfiawn i'r genhedlaeth nesaf.
- **Amgylchedd:** Mae grwpiau cymunedol yn chwarae rhan ganolog mewn cynaliadwyedd amgylcheddol trwy gymryd rhan mewn ymdrechion ar y cyd fel mentrau cadwraeth, rhaglenni lleihau gwastraff a gerddi cymunedol. Drwy weithredu ar y cyd, mae'r grwpiau hyn yn cyfrannu at les ecosystemau a thrigolion lleol, gan feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb amgylcheddol a all ysbrydoli newid cadarnhaol ehangach. Gall grwpiau cymunedol wella cynaliadwyedd ymhellach trwy integreiddio mentrau gwirfoddoli, megis glanhau amgylcheddol, ymgyrchoedd plannu coed, a gweithdai addysgol ar arferion cynaliadwy.

Grantiau ar gael

Grantiau am flwyddyn

- Mae gan y Gronfa oddeutu £90,000 o gyllid ar gael. Mae'n agored i gymysgedd o grantiau bach a chanolig a/neu un cais am y swm llawn.
- Byddai'r gallu i drosoli ffynonellau cyllid eraill (e.e. arian cyfatebol/rhannol) yn cael ei ystyried yn ffactor ychwanegol.
- Anogir ceisiadau partneriaeth, gyda'r partner arweiniol yn gwneud y cais.

Pwy all wneud cais?

- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, gyda'r prosiectau'n cael eu cyflwyno yng Nghaerdydd er budd Caerdydd. Mae Caerdydd yn cael ei hystyried yn ardal yr awdurdod lleol.
- Sefydliadau ar lawr gwlad lle mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol mewn trefnu a chyflenwi prosiectau.
- Croesewir ceisiadau partneriaeth.



Sut i wneud cais?

Mae gan y Gronfa hon broses dau gam:

1. Mynegi diddordeb

I wneud cais, archebwch alwad i gofrestru eich diddordeb a thrafod eich prosiect gydag aelod o'r Tîm Grantiau. Sylwch y bydd galwadau'n cael eu recordio gyda thrawsgrifiad.

Pwrpas yr alwad yw deall mwy am eich prosiect, gan gynnwys:

- Beth ydych chi wedi'i nodi fel yr angen am eich prosiect.
- Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni? Beth fydd yn newid? Beth fydd yr effaith/etifeddiaeth barhaol?
- Beth ydych chi am i bobl ei gofio o'r prosiect?
- Cyllideb.
- Hyblygrwydd a chynaliadwyedd y prosiect.
- Ymgysylltu â gwirfoddolwyr.
- Partneriaid a gweithio mewn partneriaeth.

2. Cais llawn

- Bydd rhwng 5-10 o ddatganiadau o ddiddordeb yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn.
- Ar ôl adolygiad panel, efallai y gofynnir i sefydliadau roi cyflwyniad wyneb yn wyneb neu drefnu ymweliad i ni ddysgu mwy am y prosiect.

Sylwer:

- Mae'n rhaid i'r cyllid fod yn ychwanegol i unrhyw ffrydiau cyllido eraill, nid yn eu lle.
- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi unrhyw weithgaredd gwleidyddol neu ddadleuol o bosibl.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

